2 Mawrth 2021

Mae Alun Griffiths (Contractwyr) Ltd. wedi eu penodi gan Lywodraeth Cymru fel y Prif Gontractwr i gyflawni Cynllun Gwella yr A55 o Abergwyngregyn i Dai'r Meibion.

Hoffem eich hysbysu am waith hanfodol a fydd yn cael ei gynnal ar ffordd ddeuol tua'r dwyrain yr A55 ar nos Sul, 7 Mawrth, nos Lun, 15 Mawrth a nos Fawrth, 16 Mawrth. Bydd y gwaith hwn yn dechrau am 20.00 bob nos ac yn dod i ben am 06.00 y bore canlynol ac mae'n ofynnol i fewnosod strwythur Rheoli Traffig newydd ar yr A55, rhwng Cyffordd 11 a 13, ar y ffordd ddeuol tua'r dwyrain. Efallai y bydd peth aflonyddwch sŵn yn ystod ein gwaith, ond gwneir pob ymdrech i leihau hyn.

Er mwyn cwblhau'r gwaith hwn yn ddiogel bydd yn hanfodol cau'r ffordd ddeuol tua'r dwyrain, rhwng cyffordd 11 a 15, gan gynnwys y ffyrdd ymadael yng Nghyffordd 11, 12 a 13, ond bydd mynediad at eich eiddo yn parhau i fod yn agored. Pe bydd angen mynediad arnoch i'r A55 yn ystod y cyfnodau hyn, cysylltwch â'n Swyddog Diogelwch a Rheoli Traffig (TSCO) ar 07485506831 fel y gellir gwneud trefniadau i'ch hebrwng drwy ein gwaith yn ddiogel. Mae'r gwaith hwn yn ddibynnol ar y tywydd a gall unrhyw dywydd garw arwain at ganslo sifftiau ac ychwanegu sifftiau o ganlyniad.

Cofiwch, wrth ddefnyddio'r ffordd ddeuol tua'r dwyrain yr A55, rhwng cyffordd 11 a 13, y bydd strwythur ffordd newydd yn dod i rym o 6.00 ddydd Llun 8 Mawrth a fydd yn cynnwys;

- ffyrdd cul (3.25m yn lôn 1 a 3m yn lôn 2)
- cyfyngiad cyflymder o 40mya
- cau'r mynediadau uniongyrchol canolog

Os oes gennych unrhyw gwestiwn ynghylch y gwaith hwn, mae croeso i chi gysylltu â mi gan ddefnyddio'r manylion cyswllt isod.

Yn gywir

Mandy Evans

Mandy Evans
Swyddog Cyswllt Cymunedol
Ar gyfer ac ar ran Alun Griffiths (Contractwyr) Ltd.

03300412185
mandy.evans@alungriffiths.co.uk